Cynllun Strategol y Diwydiant Cyfan

Dogfen Galwad am Dystiolaeth (Cymraeg)

09/12/2021

Rhagair

Ers amser maith mae'r rheilffyrdd wedi chwarae rhan hollbwysig yn natblygiad economaidd a chymdeithasol Prydain. Ers 200 mlynedd, maent wedi cysylltu pobl â lleoedd, wedi symud nwyddau a gwasanaethau, ac wedi cefnogi twf busnesau a rhanbarthau. Serch hynny, er gwaethaf eu hynodrwydd yn y gorffennol a'r gwerth a roddir arnynt heddiw, nid yw potensial llawn y rheilffyrdd wedi cael ei wireddu eto.

Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd llywodraeth y DU ei chynlluniau ar gyfer y diwygiad mwyaf yn y rheilffyrdd ers deng mlynedd ar hugain, gan ddod â hwy yn ôl ynghyd, ar ôl blynyddoedd o fod yn ddarniog, o dan Great British Railways, corff cyhoeddus newydd a fydd yn rhedeg ac yn cynllunio'r rhwydwaith rheilffyrdd, yn berchen ar y seilwaith, yn caffael gwasanaethau teithwyr ac yn pennu'r rhan fwyaf o brisiau tocynnau ac amserlenni.

Bydd gan Great British Railways ran sylfaenol i'w chwarae wrth gefnogi uchelgeisiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Prydain, ac wrth gyflawni blaenoriaethau llywodraeth y DU. Bydd yn corffori'r ffordd newydd o feddwl am y rheilffyrdd a'u pwrpas, un lle mai'r rheilffyrdd yw asgwrn cefn system trafnidiaeth gyhoeddus lanach a gwyrddach a fydd yn cynnig gwell fargen i gwsmeriaid a gwell gwerth am arian i drethdalwyr. Bydd yn adlewyrchu meddylfryd entrepreneuraidd lle caiff potensial y sector preifat – yn gweithio mewn partneriaeth â Great British Railways – ei ryddhau i gynhyrchu gwerth, ysgogi arbedion effeithlonrwydd a hyrwyddo busnes, arloesedd a buddsoddiad er budd i deithwyr.

Rwy'n gyffrous ynghylch arwain y Great British Railways Transition Team. Rydym ni'n credu y gellir rhedeg y rhwydwaith rheilffyrdd yn well – er budd pawb. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu rheilffordd symlach a gwell i bawb ym Mhrydain. Byddwn yn gwneud hyn trwy wneud y cwsmeriaid yn ganolog i'n penderfyniadau ac adeiladu system sy'n diwallu eu hanghenion hwythau – nid ein hanghenion ninnau.

Rydym ni'n wynebu un o'r heriau mwyaf mae'r sector trafnidiaeth wedi'i weld erioed ond mae gennym gyfle unigryw i ail-lunio'r ffordd mae'r rheilffyrdd yn gweithredu i bobl Prydain a'n ffyniant cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Mae cynlluniau llywodraeth y DU ar gyfer y rheilffyrdd yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu strategaeth hirdymor ledled y sector ar gyfer y rheilffyrdd, sef Cynllun Strategol y Diwydiant Cyfan (y Cynllun Strategol). Y Cynllun Strategol, a gynhyrchir gan GBR i Weinidogion, fydd y strategaeth gyntaf o'i math, cynllun lefel uchel deng mlynedd ar hugain wedi'i lunio gan set o amcanion strategol sydd wedi cael eu datblygu er budd ein teithwyr, defnyddwyr gwasanaethau nwyddau, trethdalwyr a staff, i gynorthwyo cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau Prydain i gyflawni eu nodau, ac i fod o fudd i'r economi a'r amgylchedd yn y tymor hir.

Er mwyn inni lwyddo i bennu cyfeiriad i'r rheilffyrdd dros y deng mlynedd ar hugain nesaf, bydd angen i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol fod yn ymdrech ar y cyd sy'n defnyddio arbenigedd a syniadau nid yn unig y sector rheilffyrdd ond hefyd y rhai y tu hwnt iddo. Bydd yr alwad hon am dystiolaeth yn helpu i lunio'r Cynllun Strategol a dyfodol y rheilffyrdd, ac rydym eisiau iddo gael ei lywio gan gynifer o safbwyntiau gwahanol ag sy'n bosibl, er mwyn dysgu o wersi'r gorffennol ac ymateb i heriau'r dyfodol.

Rwy'n gobeithio y bydd ein rhanddeiliaid yn rhannu eu barn ac yn darparu tystiolaeth er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfle hwn. Gyda'n gilydd, wrth inni adeiladu rheilffyrdd cynaliadwy sydd wir yn gwasanaethu nodau'r wlad, gallwn symud y sector ymlaen i gyflawni dros bawb sy'n eu defnyddio, yn eu gwasanaethu ac yn dibynnu arnynt.

Andrew Haines

Cyflwyniad

Cafodd cynlluniau uchelgeisiol llywodraeth y DU i ddiwygio sector y rheilffyrdd eu nodi mewn papur gwyn, y Williams-Shapps Plan for Rail, ym mis Mai 2021. Cydnabu'r ddogfen honno fod gan y rheilffyrdd ran sylfaenol i'w chwarae wrth gefnogi'r nodau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i Brydain, ac argymhellodd greu sefydliad newydd, Great British Railways ('GBR'), a fydd yn dod â'r system rheilffyrdd gyfan ynghyd i redeg y rhwydwaith er budd y cyhoedd.

Pan gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth greu y GBR Transition Team ym mis Hydref 2021, nododd y nodau craidd a fydd yn diffinio GBR:

- Newid diwylliant y rheilffyrdd, nid dim ond creu fersiwn fwy o Network Rail
- Meddwl fel cwsmeriaid, yn deithwyr ac yn gwsmeriaid gwasanaethau nwyddau, a'u rhoi yn gyntaf
- Tyfu'r rhwydwaith a darbwyllo mwy o bobl i deithio
- Gwneud y rheilffyrdd yn haws eu defnyddio
- Symleiddio'r sector er mwyn gwneud pethau'n gynt, gan leihau costau a bod yn atebol
- Bod â diwylliant 'gallu gwneud', nid un 'methu gwneud'
- Harneisio'r gorau o'r sector preifat
- Chwarae rhan hanfodol yn y newid cenedlaethol i sero net

Bydd GBR yn creu system rheilffyrdd symlach a gwell, un sy'n galluogi cydweithredu a chydweithio llawer agosach gydag arweinwyr lleol er mwyn inni allu gwasanaethu pobl Prydain a helpu i gyflawni blaenoriaethau llywodraeth y DU. Mae'r ddogfen Plan for Rail yn nodi y bydd GBR yn datblygu strategaeth 30 mlynedd ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd cyfan dros y degawdau i ddod.

Bydd y strategaeth honno - Cynllun Strategol y Diwydiant Cyfan (y Cynllun Strategol) - yn adnodd o bwys, gan alluogi llywodraeth y DU i bennu cyfeiriad clir ac unedig i'r rheilffyrdd er mwyn cefnogi blaenoriaethau hirdymor, cynorthwyo â datrys problemau, ac alinio'r sector rheilffyrdd y tu ôl i weledigaeth gyffredin a phenderfynu cydgysylltiedig. Bydd GBR yn gyfrifol am gyflawni'r canlyniadau yn y Cynllun Strategol, gan roi diweddariadau rheolaidd i Weinidogion ar gynnydd a chan ei addasu i adlewyrchu newidiadau yn yr economi, yn y gymdeithas ac mewn technoleg.

Bydd y Cynllun Strategol yn adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn ymateb i'r heriau sylweddol mae'r rheilffyrdd yn eu hwynebu, yn arbennig ar ôl Covid, a'r ffordd orau inni achub ar gyfleoedd y dyfodol. Bydd y blaenoriaethau ynddo yn cael eu defnyddio i bennu uchelgeisiau realistig, mesurau a meysydd i ganolbwyntio arnynt dros y tymor byr, y tymor canolog a'r tymor hir. Yn hollbwysig, bydd yn cydnabod bod angen i'r rheilffyrdd fod yn gydgysylltiedig â'r system trafnidiaeth ehangach er mwyn cyflawni'r amcanion strategol a rennir yn y ddogfen hon.

Bydd y Cynllun Strategol yn un elfen allweddol mewn proses cynllunio barhaus, a bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd yn parhau i gefnogi Prydain a'i phobl wrth i'n cymdeithas newid a datblygu, ac wrth i gyfleoedd a risgiau newydd godi, ac ar yr un pryd yn darparu cyfeiriad clir er mwyn dod â'r sector ynghyd. Bydd penderfynwyr yn cael budd o'r darlun ehangach y bydd yn ei roi, a bydd

cwsmeriaid, busnesau, y gweithlu, y gadwyn gyflenwi a buddsoddwyr i gyd yn cael budd o'r sicrwydd a chydweithrediad mwy y bydd yn eu sicrhau.

Er mwyn cyfiawnhau ei enw, mae angen i'r Cynllun Strategol droi at y sector rheilffyrdd cyfan ac – yn hollbwysig – i'r bobl a'r cymunedau y tu hwnt iddo, er mwyn sicrhau ei fod wedi'i seilio ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad arbenigwyr ar draws amrywiaeth fawr o feysydd. Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol inni gydweithio i ddatblygu cynllun sy'n ystyried y rheilffyrdd yn gyfan, gan gydnabod y cyfaddawdau y bydd eu hangen, o bosibl, yn wyneb realiti economaidd y tymor byr a'r tymor canolig, ac ar yr un pryd sefydlu'r blociau adeiladu angenrheidiol i wireddu uchelgeisiau yn y tymor hirach.

Bydd y Cynllun Strategol yn cael ei lywio a'i sbarduno gan amcanion strategol sydd wedi cael eu gosod gan lywodraeth y DU. Yr amcanion hynny fydd sylfaen y Cynllun Strategol, gan adlewyrchu'r rheidrwydd i'r rheilffyrdd wasanaethu'r wlad ac i amcanion y rheilffyrdd gyd-fynd â rhai'r wlad. Rydym yn bendant na all y Cynllun Strategol fod yn rhestr o brosiectau a buddsoddiadau; er mwyn bod o werth rhaid iddo helpu i lywio penderfyniadau ynghylch sut y gall y rheilffyrdd wella a chyfrannu at fuddion ehangach dros y 30 mlynedd nesaf.

Bydd y dystiolaeth a ddarperir yn yr alwad hon am dystiolaeth, yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu ehangach y bwriedir ei wneud gyda phartneriaid, yn hollbwysig yn natblygiad y strategaeth.

Galwad am dystiolaeth

Wrth i lywodraeth y DU weithio i gyrraedd nodau hirdymor o ran lleihau allyriadau net nwyon tŷ gwydr i sero, codi'r gwastad a thyfu'r economi, bydd gan y rheilffyrdd ran bwysig i'w chwarae. Rydym ni eisiau i'r alwad hon am dystiolaeth gynnig cyfle i gymryd rhan lawn ac ystyrlon yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol, gan ddangos ein hymrwymiad i gryfhau cydweithredu, fel yr addawyd yn y ddogfen Plan for Rail, a chan adlewyrchu'r diwylliant eangfrydig a fydd gan GBR.

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn un ffordd allweddol yr ydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth fawr o randdeiliaid er mwyn sicrhau y bydd y Cynllun Strategol yn sefyll ar sylfeini cadarn sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth. Rydym ni'n ceisio ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid y tu mewn i sector y rheilffyrdd a'r tu allan iddo, a sut y gall y rheilffyrdd gefnogi eu huchelgeisiau a'u blaenoriaethau. Rydym ni'n cydnabod bod yr alwad hon am dystiolaeth wedi'i llywio gan amcanion Llywodraeth y DU, a bod gan Lywodraeth yr Alban, sy'n cyllido ac yn manylebu'r rheilffyrdd yn yr Alban, amcanion strategol ar wahân, ond tebyg, y mae'n gweithio i'w cyflawni. Yn yr un modd, Llywodraeth Cymru yw'r corff manylebu ar gyfer gwasanaethau rheilffordd i deithwyr (er nid seilwaith y rheilffyrdd) yng Nghymru. Mae cydweithredu rhwng cyllidwyr a manylebwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i'r rheilffyrdd yn gyfan yn yr Alban ac i deithwyr rheilffordd ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

Mae ein tîm yn cydnabod bod barn ar y rheilffyrdd, a blaenoriaethau ar eu cyfer, yn amrywio ar draws y Deyrnas Unedig, ac rydym ni'n parhau i ymchwilio i strategaethau, cynlluniau a syniadau cyhoeddedig sector y rheilffyrdd a'r sector trafnidiaeth ehangach, yn ogystal ag awdurdodau trafnidiaeth lleol a datganoledig. O'r herwydd, rydym ni'n arbennig o awyddus i weld y syniadau presennol a'r syniadau gorau sydd ar gael gan sefydliadau yng ngoleuni'r heriau a chyfleoedd a grëwyd gan y pandemig.

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn cael ei lansio ar 9 Rhagfyr 2021 a bydd ar agor am wyth wythnos hyd 4 Chwefror 2022.

Ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth

Rydym ni'n argymell ichi ddarllen y ddogfen hon yn llawn cyn cyflwyno'ch ymateb. Cewch ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu sefydliadau (rhowch wybod inni am yr holl sefydliadau yr ydych yn ymateb ar eu rhan) a gallwch gyflwyno ymateb yn y ffyrdd canlynol:

- Ar lein trwy dudalen we'r alwad am dystiolaeth.
- Trwy e-bost at cfe@gbrtt.co.uk gan ddefnyddio'r templed ymateb, sydd ar gael i'w lawrlwytho o dudalen we'r alwad am dystiolaeth.

Rydym ni wedi grwpio'r cwestiynau isod yn ôl nifer o themâu. Gallwch ateb cynifer ohonynt ag sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i chi neu'ch sefydliad. Bydd profiad teithwyr a chwsmeriaid gwasanaethau nwyddau yn ganolog i'n sefydliad newydd, yn ogystal â sicrhau fforddiadwyedd i drethdalwyr, a gofynnwn ichi eu rhoi wrth wraidd eich ymatebion. **Gofynnwn ichi roi cymaint o dystiolaeth, wedi'i seilio ar ddata credadwy neu wybodaeth ansoddol ddilysadwy (megis enghreifftiau ac astudiaethau achos) ag y gallwch i gefnogi'ch sylwadau.** Ni fyddwn yn gallu rhoi cymaint o bwys ar eich ymatebion heb ddeall eu sail.

Dangosir isod yr amserlen yr ydym wedi'i hystyried ar gyfer yr alwad hon am dystiolaeth, ac y byddwn yn ei defnyddio i asesu'r ymatebion:

1. Y tymor byr: y cyfnod pum mlynedd o gyflwyno'r Cynllun Strategol yn 2022.
2. Y tymor canolig: y deng mlynedd nesaf, sef yr amserlen lle disgwyliwn fod â lefel gymedrol o sicrwydd yn ein gwaith cynllunio a dilyniannu prosiectau.
3. Y tymor hir: y deng mlynedd ar hugain hyd at 2052, sy'n hynod ansicr ac anrhagweladwy, gan ei gwneud yn bwysicach byth i'r system rheilffyrdd gael ei pharatoi ar gyfer nifer o wahanol senarios a fydd yn gallu ymaddasu i'r heriau a ddaw yn y dyfodol.

Bydd yr ymatebion mwyaf gwerthfawr yn dangos sut y gallwn wneud cynnydd tuag at ein hamcanion strategol yn unol â'r amserlenni gwahanol hyn, gan gydbwyso'r naill yn erbyn y llall, tynnu sylw at densiynau a chyfaddawdau, ystyried uchelgeisiau ymestynnol ond realistig, a'u cysylltu â thueddiadau hirdymor ehangach a blaenoriaethau cenedlaethol.

Rydym ni eisiau deall eich barn ynghylch pa dueddiadau, senarios a chyfaddawdau fydd yn effeithio ar sector y rheilffyrdd a beth y gallem ei wneud yn awr, ac yn y dyfodol, i baratoi ar eu cyfer.

Bydd croeso arbennig i ymatebion sy'n nodi cyfleoedd ar gyfer blaenoriaethu, effeithlonrwydd a lleihau costau er mwyn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr a defnyddwyr y rheilffyrdd. Ni fydd ymatebion sy'n canolbwyntio ar geisiadau am fuddsoddiadau newydd neu welliannau yn unig yn cael eu hystyried, a bydd angen i gynigion ar gyfer cyllid newydd roi tystiolaeth o'r gostyngiadau mewn costau neu arbedion effeithlonrwydd y byddai cynigion o'r fath yn eu sicrhau. Nid cyflwyno piblinell buddsoddi fydd diben y Cynllun Strategol, ac fel mae cwestiwn 3 yn nodi isod, mae'r cymorth digynsail gan drethdalwyr a roddwyd i'r rheilffyrdd yn ystod y pandemig, ynghyd â her hirdymor costau

darparu gwasanaeth rheilffyrdd, yn golygu y bydd yn hanfodol i'r Cynllun Strategol gydnabod y cyfyngiadau ar y pwrs cyhoeddus.

Ar ôl i'ch ymatebion ddod i law, byddwn yn dadansoddi ac yn ystyried yr adborth a'r dystiolaeth a ddaeth i law yn fanwl ac yn cyhoeddi adroddiad gyda'n canfyddiadau. Bydd y rhain yn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ymhellach cyn i'r Cynllun Strategol drafft gael ei gyflwyno i Weinidogion.

Cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod yr alwad am dystiolaeth, byddwn yn parhau i drefnu digwyddiadau a chyfarfodydd yn ogystal â darparu cyfleoedd eraill i ddeall eich syniadau ynghylch dyfodol y system rheilffyrdd. Mae'ch cyfranogiad yn hanfodol i'r broses hon.

Amcanion Strategol i'r Diwydiant Rheilffyrdd Cyfan

Mae llywodraeth y DU wedi datblygu pum amcan strategol ar gyfer y Cynllun Strategol dros y 30 mlynedd nesaf: **diwallu anghenion cwsmeriaid, sicrhau cynaliadwyedd ariannol, cyfrannu at dwf economaidd hirdymor, codi'r gwastad a chysylltedd, a sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol.** Rydym ni'n bwriadu gwneud yr amcanion hyn yn ganolog i'r Cynllun Strategol, ac rydym ni'n eu defnyddio i lywio'r holl gwestiynau yn yr alwad hon am dystiolaeth.

GREAT BRITISH RAILWAYS TRANSITION TEAM

	Amcanion Strategol	Uchelgais i'r rheilffyrdd
I	**Diwallu anghenion cwsmeriaid**	Diwallu anghenion teithwyr a chwsmeriaid gwasanaethau nwyddau yn y dyfodol trwy: a. Gynyddu gwerth am arian a gwella perfformiad, dibynadwyedd a lleihau amserau teithio o'r dechrau i'r diwedd, b. Cynnal rheilffordd ddiogel fel rhan o system trafnidiaeth ddiogel, ac ehangu hygyrchedd.
II	**Sicrhau cynaliadwyedd ariannol**	Sicrhau bod y rheilffyrdd yn gynaliadwy yn ariannol, yn effeithlon ac yn sicrhau gwerth am arian trwy: a. Leihau costau i'r llywodraeth, b. Sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng prisiau/ffioedd a chyllid gan y llywodraeth, a c. Chynyddu effeithlonrwydd gweithrediadau, rheoli asedau a buddsoddi cyfalaf – cyflawni'n brydlon ac o fewn y gyllideb.
III	**Cyfrannu at dwf economaidd hirdymor**	Cataleiddio twf economaidd hirdymor trwy: a. Leihau amserau a chostau teithio i ddefnyddwyr trafnidiaeth, b. Cysylltu marchnadoedd llafur a sylweddoli buddion cydgrynhoi, a c. Cysylltu lleoedd â marchnadoedd, buddsoddi'n uniongyrchol mewn sgiliau, arloesedd a seilwaith digidol, denu buddsoddiad tramor oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch economaidd yn sgil gwariant gan y llywodraeth, a hwyluso'r agenda adeiladu tai a chreu lleoedd.
IV	**Codi'r gwastad a chysylltedd**	Lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol a dod â'r undeb ynghyd trwy: a. Gyfrannu at dwf economaidd hirdymor mewn ardaloedd er mwyn cefnogi'r broses o godi'r gwastad, b. Cyfrannu at fuddion cymdeithasol, gan gynnwys cryfhau'r undeb, o gysylltedd gwell,
V	**Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol**	Cefnogi amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y llywodraeth trwy: a. Hybu newid dulliau teithio trwy wneud y rheilffyrdd yn fwy deniadol, b. Sicrhau rheilffyrdd sero-net (tyniant a seilwaith), gwarchod bioamrywiaeth a mynd i'r afael â llygredd aer, a c. Diogelu cysylltiadau trafnidiaeth trwy fuddsoddi mewn addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Rydym ni'n cydnabod bod llawer ohonoch chi'n gweithio at amcanion hirdymor tebyg. Mae gennym ddiddordeb mawr yn y ffordd yr ydych yn diffinio ac yn meintioli'ch amcanion, a sut y maent yn cyd-fynd â'n rhai ninnau neu'n wahanol iddynt. Wrth ystyried eich ymateb i gwestiwn 1, gofynnwn ichi ddefnyddio'r profiadau i lywio'ch atebion ac ichi rannu unrhyw enghreifftiau, gan gymryd i ystyriaeth ein bod ni'n disgwyl i fforddiadwyedd osod cyfyngiadau sylweddol yn yr holl senarios yn y dyfodol.

Cwestiwn 1

a) Sut fyddech chi'n cymhwyso'r amcanion hyn i'r rheilffyrdd yn eich rhanbarth chi neu i'ch maes arbenigedd chi yn y sector trafnidiaeth? Oes gennych chi dystiolaeth y gallwch ei rhannu gyda ni o'r ffordd yr ydych wedi cymhwyso amcanion tebyg mewn perthynas â'r rheilffyrdd, ac a ydych chi o'r farn bod yr amcanion wedi methu unrhyw feysydd allweddol?
b) Sut mae'n bosibl gwneud cynnydd yn erbyn nifer o'r amcanion ar yr un pryd? Oes gan unrhyw rai o'r amcanion rwystrau mwy yn gysylltiedig â hwy nag eraill, neu a yw unrhyw amcanion yn achosi rhwystrau posibl i rai eraill? Ble fyddech chi'n cyfaddawdu yn hyn o beth?
c) Pa dueddiadau hirdymor yn y gymdeithas ehangach, yr economi a'r amgylchedd fydd yn effeithio ar y pum amcan hyn dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch ymateb.
d) Beth yw'r ffactorau ansicr allweddol yr ydych o'r farn y bydd yn rhaid i'r Cynllun Strategol fod yn gallu eu gwrthsefyll er mwyn bod yn effeithiol dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf?
e) Dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf, pa gamau ddylai'r sector eu cymryd i wella integreiddio'r rheilffyrdd gyda'r system trafnidiaeth ehangach (gan gynnwys cerdded a beicio) er mwyn ceisio cyflawni'r amcanion hyn?

Diwallu anghenion cwsmeriaid

Yn fras, mae dau fath o gwsmeriaid gan y diwydiant rheilffyrdd: teithwyr a defnyddwyr gwasanaethau nwyddau. Mae'r rhwydwaith rheilffyrdd yn darparu buddion pwysig i'r cwsmeriaid sy'n dibynnu arno. Mae'r ddogfen Plan for Rail yn dweud bod yn rhaid i deithwyr gael gwasanaethau cyson o ansawdd da pob un dydd. Mae hyn yn golygu teithiau hygyrch a dibynadwy sydd â chysylltiadau da gyda gwasanaethau trafnidiaeth eraill ac sy'n cynnwys cynigion newydd i gwsmeriaid mewn gorsafoedd ac ar drenau.

Ers i'r pandemig COVID-19 ddechrau, mae'r diwydiant nwyddau ar y rheilffyrdd wedi dangos ei gadernid a'i ystwythder, gan weithio i gludo bwyd a chyflenwadau meddygol o gwmpas y wlad. Mae'r enghraifft hon, ac eraill a roddir yn y ddogfen Plan for Rail, yn dangos pa mor bwysig yw gwasanaethau nwyddau ar y rheilffyrdd i'n heconomi yn awr ac yn y dyfodol, a sut y byddwn yn datblygu targedau twf ar gyfer nwyddau a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Strategol. Dywed y ddogfen Plan for Rail ynghylch gwasanaethau nwyddau y bydd cydgysylltu cenedlaethol, mwy o gyfleoedd ar gyfer twf a mesurau diogelwch cadarn yn rhoi mantais i wasanaethau nwyddau ar y rheilffyrdd.

Wrth ystyried eich ymatebion, dylech gymryd i ystyriaeth tebygrwydd newidiadau yn lefelau neu batrymau'r galw am wasanaethau teithwyr a nwyddau dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf, yr hyn y byddai hynny'n ei olygu i'r system rheilffyrdd, a beth fydd yr ymyriadau dros y cyfnod hwnnw a fydd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Cwestiwn 2

a) Teithwyr: sut fydd disgwyliadau teithwyr rheilffordd, gan gynnwys gofynion hygyrchedd, yn datblygu dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf, beth

fydd sbardunau'r newidiadau hyn yn eu disgwyliadau; a beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol i sector y rheilffyrdd eu bodloni?

b) Teithwyr: yn eich profiad chi, beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol inni fonitro ac asesu boddhad cwsmeriaid? Beth sy'n uchelgais ymestynnol ond realistig ar gyfer yr amcan hwn a pha fesurau yw'r rhai mwyaf effeithiol inni eu defnyddio i ystyried llwyddiant dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Pa dystiolaeth allwch chi ei rhannu i gefnogi'ch barn?
c) Nwyddau: pa dystiolaeth allwch chi ei rhoi ynghylch mantais / manteision cludo nwyddau ar y rheilffyrdd a pha dystiolaeth allwch chi ei rhannu ynghylch sut y gallai hynny ddatblygu yn y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Beth yn eich barn chi yw'r rôl fwyaf effeithiol i wasanaethau nwyddau ar y rheilffyrdd yn y cadwyni cyflenwi presennol mae'r rheilffyrdd yn eu gwasanaethu a'r rhai nad ydynt yn eu gwasanaethu? Sut allai hyn newid dros y cyfnod hwnnw? Wrth ateb, dylech esbonio a chymryd ystyriaeth o ddatblygiadau tebygol mewn technoleg ac yn yr economi ehangach.
d) Beth sy'n uchelgais ymestynnol ond realistig ar gyfer yr amcan hwn a pha fesurau yw'r rhai mwyaf effeithiol inni eu defnyddio i ystyried llwyddiant dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Beth yw'r ymyriadau dros y cyfnod hwnnw fydd yn cynnig y gwerth gorau am arian, a pha dystiolaeth allwch chi ei rhannu i gefnogi'ch honiad?

Sicrhau cynaliadwyedd ariannol

Mae'r rheilffyrdd yn wasanaeth cyhoeddus, sy'n cael cymorth gan y trethdalwr, a hefyd yn fusnes, sy'n cael ei redeg gan weithredwyr preifat, gyda theithwyr a chwsmeriaid gwasanaethau nwyddau sy'n talu. Mae'r rheilffyrdd wedi cael lefelau digynsail o gymorth cyhoeddus trwy gydol cyfnod y pandemig, gan ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol mae pobl, gan gynnwys gweithwyr allweddol sy'n cymudo, yn dibynnu arnynt. Wrth i'r adferiad a diwygiad i'r rheilffyrdd gyflymu, fel yn achos pob maes gwariant cyhoeddus, mae cyfrifoldeb ar sector y rheilffyrdd i sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr a threthdalwyr yn y ffordd y caiff arian ei ddefnyddio, a rhaid iddo harneisio cymhellion y sector preifat er mwyn darparu'r gwasanaeth yn y ffordd fwyaf costeffeithiol.

Felly mae'n rhaid i'r rheilffyrdd geisio darparu seilwaith a gwasanaethau yn fwy effeithlon, er mwyn sicrhau'r canlyniadau buddiol mwyaf posibl ac ar yr un pryd cydbwyso costau yn erbyn refeniw a chyllid gan y trethdalwr. Mae hwn yn fater o bwys y tu hwnt i'r tymor byr: rydym yn glir bod lleihau cost y rheilffyrdd, gwella effeithlonrwydd gan gynnwys trwy arloesi gyda phartneriaid preifat, a sicrhau bargen well i ddefnyddwyr a threthdalwyr yn un o'n blaenoriaethau hanfodol dros y 30 mlynedd nesaf.

Wrth ystyried eich ateb i'r cwestiwn isod, dylech ystyried sut y gallwn gefnogi mwy o effeithlonrwydd (megis gweithrediadau cydgysylltiedig), arloesedd, ffynonellau cyllid amgen a/neu leihau costau. Yn yr un modd, pa gamau fyddech chi'n eu cynnig i wella effeithlonrwydd a lleihau cost prosiectau seilwaith, gweithrediadau a gwaith cynnal a chadw, a pha dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'ch ymateb?

Cwestiwn 3

Ble mae'r cyfleoedd a rhwystrau mwyaf arwyddocaol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn sector y rheilffyrdd dros 5, 10 a 30 mlynedd a sut ydym ni'n eu cyflawni/eu goresgyn? Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol inni fonitro ac asesu hyn? Beth sy'n uchelgais ymestynnol ond realistig ar gyfer yr amcan hwn a pha fesurau yw'r rhai mwyaf effeithiol inni eu defnyddio i ystyried llwyddiant dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Beth yw'r ymyriadau dros y cyfnod hwnnw a fydd yn cynnig y gwerth gorau am arian?

Cyfrannu at dwf economaidd hirdymor

Mae'r rheilffyrdd yn helpu i hybu cynhyrchiant a thwf trwy well cysylltedd a chreu swyddi, yn galluogi cadwyni cyflenwi, yn danfon nwyddau i fusnesau a chwsmeriaid ac yn cyflogi mwy na 240,000 o bobl yn uniongyrchol (ffynhonnell: the rail sector in numbers). Ymysg ffactorau eraill, megis twf y boblogaeth, dylanwadir ar dwf economaidd hirdymor gan dechnoleg sy'n dod i'r amlwg a ffyrdd arloesol a mwy effeithiol o feddwl a gwneud pethau. Dros y 30 mlynedd nesaf, bydd tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a thechnolegol ehangach yn newid y rhan mae'r rheilffyrdd yn ei chwarae yn ein heconomi. Lle'r sector cyfan fydd dangos y gall nid yn unig barhau i sicrhau buddion economaidd helaeth yn wyneb economi sydd wedi newid ond y gall hefyd ddod o hyd i ffyrdd newydd o ysgogi twf a ffyniant.

Wrth ystyried eich ateb i'r cwestiynau isod, dylech rannu enghreifftiau o unrhyw dwf a chynhyrchiant lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol, ac enghreifftiau o arloesedd a thechnoleg yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd tramor, ymchwil i dueddiadau a allai ddylanwadu ar gyfraniad y rheilffyrdd i dwf economaidd, a/neu ffyrdd newydd o feddwl y dylid eu defnyddio yn neu ar gyfer sector y rheilffyrdd dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf.

Cwestiwn 4

a) Wrth i Brydain ymadfer o effeithiau'r pandemig COVID-19, pa dystiolaeth sydd gennych o'r ffordd y gall y rheilffyrdd gyfrannu at dwf economaidd ehangach dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Beth sy'n uchelgais ymestynnol ond realistig ar gyfer yr amcan hwn a pha fesurau yw'r rhai mwyaf effeithiol inni eu defnyddio i ystyried llwyddiant dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Pa fath o ymyriadau dros y cyfnod hwnnw a fydd yn cynnig y gwerth gorau am arian o gyfraniad economaidd y rheilffyrdd, a pha dystiolaeth allwch chi ei rhannu i gefnogi'ch barn?

b) Yng nghyd-destun galluogi datblygiad a chyfleoedd adfywio yng nghyffiniau gorsafoedd ac yn yr ardaloedd o'u cwmpas, beth yw'r ffordd orau i'r rheilffyrdd hwyluso gwelliannau i leoedd a thwf lleol, trwy well cysylltedd a thrwy ddatgloi gweithgarwch masnachol, tai a chyflogaeth dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf?

c) Pa syniadau arloesol a syniadau am foderneiddio sydd gennych a fyddai o fudd i'r rheilffyrdd ac ar yr un pryd yn cefnogi'r amcanion strategol? Dylech roi tystiolaeth a chyfeirio at y ffordd y byddent yn cynnal neu'n gwella hanes diogelwch y rheilffyrdd.

Codi’r gwastad a chysylltedd

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Godi’r Gwastad wedi nodi pedwar canlyniad allweddol y bydd llywodraeth y DU yn canolbwyntio arnynt:

- Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol;
- Rhoi hwb i safonau byw trwy dyfu’r sector preifat a gwella cynhyrchiant a chysylltedd;
- Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus; ac
- Adfer balchder lleol.

Mae gan y rheilffyrdd ran bwysig i’w chwarae wrth weithio tuag at y canlyniadau hyn, ac yn arbennig felly wrth gysylltu cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau’r Deyrnas Unedig. Gall gwell cysylltiadau rheilffordd gysylltu pobl â swyddi, addysg a sgiliau, tai o ansawdd da, cyfleoedd cymdeithasol, gwasanaethau a mannau gwyrdd, yn ogystal â hybu twf busnesau a denu ymwelwyr hamdden i ardal. Gall gwella gorsafoedd a’r ardaloedd o’u cwmpas hefyd ysgogi adfywio a datblygiadau a bod yn destun balchder lleol.

Ar hyn o bryd, mae’r defnydd o’r rheilffyrdd yn amrywio’n fawr ar draws y Deyrnas Unedig; cyn y pandemig, roedd bron dau draean o’r holl deithiau ar y rheilffyrdd yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr (Adroddiad Rail Sector in Numbers o 2019).

Wrth ateb y cwestiynau, ystyriwch y ffyrdd y gellir defnyddio’r rheilffyrdd i wella cysylltedd a thwf economaidd lleol dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a’r 30 mlynedd nesaf.

Cwestiwn 5

a) Pa dystiolaeth allwch chi ei rhoi am y ffordd mae sector y rheilffyrdd yn cyfrannu at y pedwar canlyniad codi’r gwastad ac at wella cysylltedd ledled Prydain, gan gynnwys trwy wasanaethau trawsffiniol? Sut mae hyn yn newid gan ddibynnu ar y math o le mae’r sector yn gweithredu ynddo (gan gynnwys mewn dinasoedd, trefi a chefn gwlad), a beth yw’r ffyrdd mwyaf cost effeithiol sydd ar gael i’r sector i wella hynny’n fwy byth yn ystod y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a’r 30 mlynedd nesaf?

b) Sut allai’r diwydiant rheilffyrdd, dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a’r 30 mlynedd nesaf, ddod yn fwy ymatebol ac yn fwy atebol i gymunedau lleol a theithwyr? Dylech roi tystiolaeth ac enghreifftiau yn eich ymateb.

c) Beth sy’n uchelgais ymestynnol ond realistig ar gyfer yr amcan hwn a pha fesurau yw’r rhai mwyaf effeithiol inni eu defnyddio i ystyried llwyddiant dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a’r 30 mlynedd nesaf? Beth yw’r ymyriadau dros y cyfnod hwnnw fydd yn cynnig y gwerth gorau am arian, a pha dystiolaeth allwch chi ei rhannu i gefnogi’ch barn?

Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r ddogfen Plan for Rail yn ymrwymo i greu cynllun amgylcheddol cynhwysfawr a fydd yn sefydlu’r rheilffyrdd fel asgwrn cefn system trafnidiaeth lanach yn y dyfodol, un sydd â’r nod

o warchod a gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Y cynllun hwnnw, y Strategaeth Rheilffyrdd Cynaliadwy, fydd un o'r mewnbynnau i'r Cynllun Strategol, a bydd yn adeiladu ar strategaeth, ac yn datblygu'r strategaeth honno, i gyflawni'r ymrwymiadau polisi a nodir yn nogfen Transport Decarbonisation Plan y Deyrnas Unedig ac yn nogfen Rail Environment Policy Statement a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, yn ogystal â'r Strategaeth Sero Net o fis Hydref 2021.

Yn ogystal â mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd, rhaid i'r rhwydwaith rheilffyrdd hefyd allu ymaddasu i'r newidiadau a welir eisoes. Mae hyn yn golygu paratoi at effaith tywydd eithafol a gwella gallu'r rhwydwaith rheilffyrdd i wrthsefyll effeithiau digwyddiadau o'r fath – er enghraifft, llifogydd.

Wrth ateb y cwestiynau, ystyriwch y ffyrdd y gall y rheilffyrdd ac ystad y rheilffyrdd gyfrannu at agendâu cenedlaethol a rhanbarthol ehangach ym maes polisi amgylcheddol, cefnogi datgarboneiddio, gwarchod a gwella bioamrywiaeth, gwella ansawdd aer a chynyddu cynhyrchu pŵer adnewyddadwy.

Cwestiwn 6

a) Beth sy'n uchelgais ymestynnol ond realistig ar gyfer yr amcan hwn a pha fesurau yw'r rhai mwyaf effeithiol inni eu defnyddio i ystyried llwyddiant dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf? Beth yw'r ymyriadau dros y cyfnod hwnnw fydd yn cynnig y gwerth gorau am arian, a pha dystiolaeth allwch chi ei rhannu i gefnogi'ch barn?
b) Pa ddefnydd all sector y rheilffyrdd ei wneud o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg neu sy'n bodoli eisoes i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a gwella bioamrywiaeth dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf, ac, mewn ffordd gymesur a chost effeithiol, helpu awdurdodau cenedlaethol a rhanbarthol i gyflawni eu hamcanion amgylcheddol?
c) Beth yw'r ffordd orau i'r rheilffyrdd fuddsoddi mewn gwrthsefyll newid hinsawdd, gyda chymorth gwaith rhagweld a chynllunio mwy clyfar a thechnoleg fwy clyfar, dros y 5 mlynedd, y 10 mlynedd a'r 30 mlynedd nesaf a pha dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'ch barn?

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd adroddiad ar yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth, gan gynnwys y camau nesaf, yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2022, gyda'r bwriad y bydd y Cynllun Strategol yn cael ei gyflwyno i Weinidogion erbyn rhan olaf 2022. Bydd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau yn ystod y cyfnod hwnnw, gan gynnwys trwy gylchlythyrau, fforymau, gweithdai, digwyddiadau a chyfarfodydd.

Rydym ni o'r farn bod y Cynllun Strategol yn gyfle unigryw i ddatblygu gweledigaeth gyffrous a chyflawnadwy ar gyfer y rheilffyrdd, sy'n cefnogi cydweithredu ac sydd wedi'i gwreiddio ledled sector y rheilffyrdd. Diolch am eich cyfranogiad a'ch mewnbwn – sy'n bwysig er mwyn cyflawni hyn.

Os oes gennych gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â cfe@gbrtt.co.uk.